## Rhagair

*Mae llawer o bobl yn teimlo eu bod yn clywed gormod eisoes am gamddefnydd rhywiol o blant. Ymddengys bod y teledu, y radio a'r papurau newydd yn llawn storïau arswydus am blant sydd yn cael eu camddefnyddio, eu cipio a hyd yn oed eu llofruddio, fel arfer gan ddieithriaid. Y gwirionedd yw bod y storïau sydd yn cael y sylw mwyaf gan y cyfryngau ymhell o fod yn nodweddiadol. Pa mor ddefnyddiol fyddai gwybodaeth fel hyn mewn gwirionedd pe byddem yn drwgdybio fod rhywun yr ydym yn ei adnabod yn dda yn camddefnyddio plentyn yn rhywiol neu yn ystyried gwneud hynny?*

Bydd camddefnydd rhywiol o blant yn digwydd yn ddirgel ac ni fydd y mwyafrif o ddioddefwyr yn dweud wrth neb. Fel arfer bydd y camddefnyddiwr yn ffrind i'r teulu, yn gymydog, yn aelod o deulu'r dioddefwr neu yn rhywun sy'n gweithio gyda phlant; gall fod yn rhywun yr ydym yn ei adnabod ac yn ei garu.

Yn aml bydd pobl sy'n camddefnyddio plant yn medru sicrhau ymddiriedaeth y plentyn a'i rieni neu'r rhai sy'n gofalu amdano, a gall y camddefnydd fynd ymlaen am flynyddoedd heb fod neb yn ymwybodol ohono. Gan mai'n anaml y gall plant ddweud wrthym amdano, rhaid i ni, fel oedolion eu diogelu. Ond nid hawdd yw adnabod ymddygiad pobl sy'n camddefnyddio plant yn rhywiol – naill ai am nad ydym yn gwybod beth i wylio amdano, neu am fod ein drwgdybiaethau mor gythryblus nes y byddwn yn eu gwthio o'n meddyliau.

Nod y daflen hon yw rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen arnomi i gyd i adnabod yr arwyddion rhybuddiol o gamddefnydd ac i fagu'r hyder i wneud rhwybeth ynglŷn ag ef.

Mae Stop it Now! yn credu bod modd i bob un ohonom gwrdd â.r her o adnabod arwyddion camddefnydd cyn y bydd hynny'n digwydd a gweithredu'n bositif i'w atal. **Yn bwysicaf oll, Mae Stop it Now! yn galw ar bobl sy'n camddefnyddio plentyn, neu sydd yn ystyried gwneud hynny, i adnabod bod eu hymddygiad yn andwyol ac i geisio am help.**

## Pam y mae'n rhaid inni wybod am gamddefnydd rhywiol o blant?

Dim ond yn y blynyddoedd diwethaf y sylweddolasom wir raddfa camddefnydd rhywiol o blant. Mae'r cyfrinachedd o gwmpas camddefnydd rhywiol o blant yn amlwg oddi wrth y ffaith nad oes dim ond chwarter y plant sy'n cael eu camddefnyddio'n rhywiol yn sôn am hynny wrth neb. O'r rhain, bydd y rhan fwyaf yn dweud wrth aelod o'r teulu neu ffrind. Ychydig bach bach sydd yn dod i sylw'r heddlu, neu'r gwasanaethau cymdeithasol neu weithwyr iechyd proffesiynol.

Mewn astudiaeth bwysig a gynhaliwyd yn y DU, dywedodd un o bob chwech oedolyn ifanc iddynt gael eu camddefnyddio'n rhywiol cyn cyrraedd 16 oed. Nid gor-ddweud fyddai ddisgrifio hyn fel epidemig, sy'n achosi niwed difrifol i filoedd o blant bob blwyddyn.

Gall y niwed a achosir i blant gan gamddefnydd rhywiol fod yn ddwfn, nid yn unig i'w datblygiad emosiynol a chorfforol, ond hefyd i'w hymddiriedaeth mewn oedolion, yn enwedig os bydd y camddefnyddiwr yn rhywun y maent yn ei garu. Gorau po gyntaf y canfyddir y camddefnydd, fel y gall y broses o iacháu ddechrau'n gynharach.

> "Pan oeddwn yn 14 oed, dywedais wrth fy mam fod fy nhad yn fy nghamddefnyddio'n rhywiol, ond wnaeth hi ddim byd. Flwyddyn yn ddiweddarach dywedais wrth y meddyg. Dywedodd ef na allai wneud dim. Pe byddai rhywun wedi gwrando a'm helpu'r adeg hynny, byddai fy mhroblemau wedi eu hanneru. Roedd pobl yn gwybod beth oedd yn digwydd imi, ond roedd gormod o ofn arnynt i wneud dim. Rhaid i bobl deimlo'n hyderus er mwyn gweithredu."
>
> *Oedolyn a oroesodd gamddefnydd rhywiol*

Gallwn amddiffyn plant trwy ddysgu sut i fod yn effro i arwyddion rhybuddiol yn ymddygiad darpar-gamddefnyddiwr a gwybod sut i weithredu. Mae gwybodaeth sownd yn ein helpu adnabod yr arwyddion hyn a gweithredu i atal ymddygiad peryglus ynom ni ein hunain ac mewn pobl yr ydym yn eu hadnabod. Fel y galluogodd yr ymgyrch yn erbyn yfed a gyrru ni i herio rhywun sy'n yfed ac yn bwriadu gyrru, gall gwybodaeth a chyngor ein helpu i weithredu os byddwn yn drwgdybio fod rhywun yr ydym yn ei adnabod o bosibl yn ymddiddori'n rhywiol mewn plant.

## Beth yw camddefnydd rhywiol o blant?

**Mae Camddefnydd Rhywiol o Blant yn cynnwys Gweithgaredd Cyffwrdd a Gweithgaredd Dim-Cyffwrdd**

**Mae Gweithgaredd Cyffwrdd yn cynnwys:**

- Cyffwrdd ag organau cenhedlu neu fannau dirgel plentyn am bleser rhywiol
- Peri i blentyn gyffwrdd ag organau cenhedlu rhywun arall, chwarae gemau rhywiol neu gael rhyw
- Rhoi pethau neu rannu o'r corff (bysedd, tafod neu benis) i mewn i fagina, ceg neu refr plentyn am bleser rhywiol

**Mae Gweithgaredd Dim-Cyffwrdd yn cynnwys:**

- Dangos pornograffi i blentyn
- Dinoethi organau cenhedlu oedolyn yn fwriadol i blentyn
- Tynnu lluniau o blentyn mewn ystumiau rhywiol
- Annog plentyn i wylio neu glywed gweithredoedd rhywiol
- Gwylio mewn modd amhriodol blentyn yn dadwisgo neu'n defnyddio'r ystafell ymolchi

## Beth am bornograffi plant?

Yn ogystal â'r gweithgareddau a ddisgrifir uchod, mae problem ddifrifol a chynyddol arall, sef pobl yn gwneud delweddau rhywiol o blant ar y rhyngrwyd a'u llwytho i lawr. Mae gwylio pornograffi plant yn golygu cymryd rhan mewn camddefnyddio plentyn, ac mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n gwneud hynny yn camddefnyddio hefyd blant y maent yn eu hadnabod. Mae angen help ar y bobl sy'n edrych ar y defnyddiau hyn er mwyn atal eu hymddygiad rhag mynd yn fwy difrifol fyth.

## Pwy sydd yn camddefnyddio plant yn rhywiol?

Mae dealltwriaeth gynyddol fod camddefnyddwyr rhywiol yn debygol o fod yn bobl yr ydym yn eu hadnabod, a gallant yn hawdd fod yn bobl yr ydym yn hoff ohonynt; wedi'r cyfan, mae mwy nag wyth o bob deg o blant a gamddefnyddir yn rhywiol yn adnabod eu camddefnyddwyr. Maent yn aelodau o'r teulu neu'n ffrindiau, yn gymdogion neu'n ofalwyr babanod – llawer ohonynt â lle parchus yn y gymdeithas. Bydd rhai pobl sydd yn camddefnyddio plant yn cael perthynas rywiol ag oedolion nad ydynt yn ymddiddori'n rhywiol yn unig neu yn bennaf mewn plant. Gall camddefnyddwyr ddod o bob dosbarth, a chefndir hiliol a chrefyddol, a gallant fod yn wahanrywiol neu'n gyfunrywiol. Mae'r rhan fwyaf o gamddefnyddwyr yn ddynion, ond mae rhai yn fenywod. Ni allwch adnabod camddefnyddiwr mewn torf.

> “Mae.n edrych mor gyffredin, ac mae’n ardderchog gyda phlant. Ni fuaswn fyth wedi ei adnabod fel camddefnyddiwr.”
> *Mam bachgen saith mlwydd oed a gamddefnyddiwyd gan gymydog*

Camddefnyddir llawer o blant gan blant eraill neu bobl ifainc. Oni chaiff y broblem ei hadnabod ac oni chynigir help, gall unigolyn ifanc sy’n camddefnyddio plant eraill barhau i gamddefnyddio plant pan fydd yn oedolyn. Mae mwy o wybodaeth ar sut i adnabod ymddygiad amheus mewn plant a phobl ifainc a beth i’w wneud ynglŷn â’r peth ar gael ar Linell Gymorth Stop it Now!

## Pam y byddant yn ei wneud?

Nid yw’n hawdd deall pam y gall pobl sy’n ymddangos mor normal wneud pethau fel hyn i blant. Bydd rhai sy’n camddefnyddio plant yn gwybod fod hynny’n ddrwg ac yn anhapus iawn ynglŷn â’r hyn a wnânt. Mae eraill yn credu fod eu hymddygiad yn iawn, a bod yr hyn y maent yn ei wneud yn dangos eu cariad at blant. Cafodd rhai, ond nid pob un, eu camddefnyddio eu hunain; daw eraill o gefndir teuluol treisiol neu anhapus. Nid yw gwybod pam y mae pobl yn camddefnyddio plant yn rhywiol yn esgus dros eu hymddygiad, ond gall ein helpu i ddeall pam y mae’n digwydd.

Os bydd camddefnyddwyr yn wynebu realiti yr hyn maent yn ei wneud, ac yn cyfaddef hynny, neu os bydd rhywun yn achwyn arnynt i’r awdurdodau, mae rhaglenni effeithiol o driniaeth ar gael. Bydd y rhain yn helpu pobl i ddeall a rheoli eu hymddygiad, gan leihau’r perygl i blant ac adeiladu cymdeithas ddiogelach. Mae gwybod am y posibilrwydd o driniaeth i gamddefnyddwyr yn helpu plant a theuluoedd hefyd.

> “Roedd gwybod fod lleoedd lle y gallai pobl fel fy nhad gael help yn ei gwneud yn haws imi sôn am y camddefnydd. Dywedais amdano am fod arnaf eisiau iddo gael help, nid dim ond ei weld yn cael ei gosbi.”
> *Merch 17 oed*

## Sut byddant yn ei wneud?

***Trwy ddod yn agos at blant:***

Yn aml, bydd pobl sydd am gamddefnyddio plant yn creu perthynas â'r plentyn ac â'r oedolion sy'n gofalu amdano. Mae llawer ohonynt yn dda am wneud 'ffrindiau' â phlant ac â'r rhai sy'n agos atynt.

Bydd rhai, o bosibl, yn gwneud cymwynas â rhieni sy'n wynebu anawsterau neu sy'n unig. O bosibl, byddant yn cynnig gwarchod baban, neu'n cynnig help gyda gofalu am blant a chyfrifoldebau eraill.

Bydd rhai yn ceisio cael lleoedd cymdeithasol pwysig a fydd yn dod â hwy i gysylltiad â phlant – mewn gofal plant neu ysgolion, grwpiau plant neu dimau chwaraeon.

Bydd rhai yn cael swyddi mewn lleoedd fel canolfannau adloniant, meysydd chwarae, parciau a phyllau nofio, ac o gwmpas ysgolion lle y gallant ddod i adnabod plant.

***Trwy roi taw ar blant:***

Mae'n bosibl y bydd pobl sy'n camddefnyddio plant yn rhywiol yn cynnig cyfuniad o anrhegion a bygythiadau am yr hyn a fydd yn digwydd os bydd y plentyn yn eu gwrthod neu'n dweud wrth rywun amdanynt. Mae'n bosibl y byddant yn peri i'r plentyn ofni gael ei niweidio'n gorfforol, ond, yn fwy arferol, bydd a wnelo'r bygythiad â'r hyn a fydd yn digwydd os bydd y plentyn yn dweud – er enghraifft y teulu'n chwalu neu'r tad yn cael ei garcharu.

I gadw'r cam-drin yn gyfrinach, bydd camdrinwyr yn aml yn chwarae ar ofnau neu gywilydd neu euogrwydd y plentyn ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd, ac, o bosibl yn ei ddarbwyllo na fydd neb yn ei gredu. Weithiau byddant yn peri i blant gredu eu bod yn mwynhau'r hyn a ddigwyddodd a'u bod wedi dymuno iddo ddigwydd.

Gall fod rhesymau eraill i blant gadw'n dawel. Mae'n bosibl na fydd gan blant ifainc iawn, neu blant anabl, y geiriau neu'r ffordd o gyfathrebu i ddweud wrth bobl am yr hyn sy'n digwydd.

## Beth sydd yn ein hatal rhag gweld camddefnydd?

Cafodd llawer o bobl brofiad o rywun agos iddynt yn camddefnyddio plentyn. Pan fydd rhywbeth mor anodd i'w ystyried, nid yw ond dynol chwilio am ffyrdd o wadu'r peth i ni'n hunain. Un o'r syniadau cyffredin sydd gan rieni yn y sefyllfa hon yw: "Byddai fy mhlentyn wedi dweud wrthyf os oedd yn cael ei gamddefnyddio. Ni wnaeth hynny – felly nid yw'n bosibl fod y peth yn digwydd."

**Pethau eraill y mae pobl wedi eu dweud wrthynt eu hunain er mwyn gwadu'r hyn sy'n digwydd:**

"Roedd yn dad perffaith, yn ymdrin â'r plant ac yn chwarae gyda nhw, a phan fu ein merch yn sâl, gofalodd mor dda amdani."

"Roeddwn i'n meddwl mai chwarae o gwmpas yr oedden nhw. Doedd bosib ei fod e'n cam-drin rhywun 14 oed."

"Fuasai 'mrawd byth yn gwneud pethau felly i blentyn. Mae ganddo fo wraig a phlant."

"Mae gan fy ffrind berthynas sefydlog gyda menyw. Felly sut y gall ymddiddori mewn bechgyn?"

" Hi oedd eu mam nhw: sut y gallai hi eu camddefnyddio?"

"Fe ddywedodd wrthyf o'r cychwyn am ei orffennol. Fyddai e ddim wedi gwneud hynny oni bai ei fod wedi newid. Fe fuaswn yn gwybod pe bai wedi gwneud y peth eto."

## Beth y mae rhaid inni ei wybod?

Mae angen gwybodaeth a ffeithiau cywir arnom i'n helpu i ddiogelu ein plant. Nid yw'r arwyddion fod oedolion yn defnyddio'u perthynas â phlentyn at ddibenion rhywiol bob amser yn amlwg. Gallwn deimlo'n anghyffyrddus ynglŷn â'r ffordd y byddant yn chwarae gyda'r plentyn, neu'r ffordd y mae'n ymddangos eu bod yn ffafrio un plentyn yn arbennig, ac yn ceisio creu cyfleon i fod ar eu pen eu hunain gydag ef.

**Gall y canlynol fod yn achos pryder ynglŷn ag ymddygiad oedolyn neu unigolyn ifanc:**

- Gwrthod caniatáu digon o breifatrwydd i blant neu wrthod rhoi'r hawl iddynt i wneud eu penderfyniadau eu hunain ar faterion personol.
- Mynnu dangos serch ar ffurf cusanu, cofleidio neu ymgodymu hyd yn oed pan na fydd y plentyn yn dymuno hynny.
- Ymddiddori'n ormodol yn natblygiad rhywiol plentyn neu unigolyn ifanc.
- Mynnu cael amser ar ei ben ei hun gyda phlentyn heb ymyrraeth.
- Treulio'r rhan fwyaf o'i amser hamdden gyda phlant ifainc, heb fawr o ddiddordeb mewn treulio amser gyda phobl o'r un oedran.
- Cynnig yn gyson gofalu am blant yn ddi-dâl neu fynd â phlant ar dripiau dros nos heb fod neb arall yn bresennol.
- Prynu anrhegion drud i blant neu roi arian iddynt heb ddim rheswm amlwg.
- Cerdded i mewn yn aml i'r ystafell ymolchi pan fydd plant neu bobl ifainc yno.
- Rhoi ffafriaeth i blentyn penodol, gan beri iddo deimlo ei fod yn 'arbennig' mewn cymhariaeth ag eraill yn y teulu.
- Erlid plentyn penodol.

Bydd plant yn aml yn dangos inni fod rhywbeth o’i le, yn hytrach na dweud wrthym. Fe all y bydd cyfuniad o resymau am newidiadau yn eu hymddygiad, ond os byddwn yn sylwi ar gyfuniad o arwyddion rhybuddiol, dyma, efallai, yr amser i alw am help neu gyngor.

**Yr hyn i wylio amdano mewn plant:**

- Ymddwyn mewn ffordd rywiol amhriodol gyda thegannau neu wrthrychau.
- Hunllefau, problemau cysgu.
- Dechrau cilio neu lynu at rywun.
- Llithro’n ôl i ymddygiad iau, e.e glwychu’r gwely.
- Ofn anesboniadwy o bobl neu leoedd penodol.
- Pyliau o ddicter.
- Newidiadau mewn arferion bwyta.
- Olion corfforol fel e.e. poen neu gleisio heb eglurhad, o gwmpas yr organau cenhedlu, clefydau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Troi’n gyfrinachol.

## Mae hyn oll yn swnio’n achos gofidio – oni all oedolion fod yn ddiogel gyda phlant?

Gallant, wrth gwrs. Mae’r rhan fwyaf o oedolion yn ddiogel. Mae arwyddion o gariad corfforol yn rhan anhepgor o fagu plant, a dylid eu hannog ar bob cyfrif. Ond nid yw’r gwahaniaeth rhwng gwir gariad ac ymddygiad camddefnyddiol bob amser yn glir. Os byddwn yn teimlo’n anghyffyrddus ynglŷn ag ymddygiad oedolyn tuag at blentyn neu blant, mae’n bwysig trafod hynny â rhywun y gallwn ymddiried ynddo/i. Gall Llinell Gymorth Stop it Now! gynnig cyngor cyfrianchol – ffoniwch 0808 1000 900.

## Beth allwn ni ei wneud i arbed plant rhag cael eu camddefnyddio'n rhywiol?

Perthynas ddiogel rhwng oedolion a phlant yw un lle y mae cyfrinachau'n anodd eu cadw; lle y byddai plentyn yn teimlo bod modd dweud ei gŵyn wrth rywun hyd yn oed os na fu'n bosibl dweud na wrth y camddefnyddiwr. Y mae pobl sydd am gam-drin plant yn osgoi sefyllfaoedd fel hyn. Po anosaf y gwnawn ni hi i gamddefnyddwyr ddod rhwng plant a rhieni, gorau yn y byd y diogelir plant.

Weithiau, bydd y camddefnyddiwr yn rhiant neu'n aelod agos arall o'r teulu. Pan fydd hynny'n digwydd, mae'n arbennig o boenus i'r rhiant diogel neu aelodau eraill o'r teulu i wynebu'r gwirionedd, ac mae'n anos fyth i blant ddweud na, na chwyno am y peth.

Mae yna bethau y gall pob un ohonom eu gwneud i atal camddefnyddio rhywiol ar blant. Weithiau bydd gan rywun y tu allan i deulu'r plentyn well dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd na'r rhai sydd â chysylltiad nes.

***I atal camdriniaeth rywiol o blant rhaid inni:***

1. Fod yn ymwybodol o'r arwyddion rhybuddiol fod rhywun yr ydym yn ei adnabod efallai yn ymddiddori'n rhywiol mewn plant, a chwilio am help os ydym yn poeni.

Rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn deall yr arwyddion a gynhwysir yn y daflen hon fel y byddwn yn ymwybodol o'r hyn i wylio amdano yn gynnar. Os ydym yn tybio bod rhywun yr ydym yn ei adnabod â diddordeb rhywiol mewn plentyn, neu, o bosibl yn camddefnyddio plentyn, rhaid inni geisio cymorth proffesiynol. Peidiwch â chadw'r peth yn gyfrinach.

2. Siaradwch â phlant, a gwrandewch ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Bydd pobl sy'n camddefnyddio plant yn rhywiol yn dibynnu ar gyfrinachedd. Byddant yn ceisio cadw plant yn ddistaw ac adeiladu ymddiriedaeth oedolion, gan ddibynnu arnom i gadw'n dawel os bydd amheuon gennym. Y cam cyntaf i drin y cyfrinachedd hwn yw datblygu perthynas agored ac ymddiriedus gyda'n plant. Mae hyn yn golygu gwrando'n ofalus ar eu hofnau a'u pryderon, a rhoi gwybod iddynt na ddylent boeni ynglŷn â dweud unrhywbeth wrthym. Mae'n bwysig siarad â nhw am ryw, a bod yn gyffyrddus wrth ddefnyddio'r geiriau y bydd eu hangen arnynt.

3. Dangos i blant ei bod yn iawn dweud "na".

Dysgwch blant pa bryd y mae'n iawn dweud "na"; er enghraifft, pan nad ydynt am chwarae neu gael eu goglais neu gofleidio neu gusanu. Helpwch nhw i ddeall beth yw ymddygiad annerbyniol, a bod yn rhaid iddynt bob amser ddweud wrthym os bydd rhywun yn ymddwyn mewn ffordd sy'n eu poeni, hyd yn oed os methant ddweud "na" ar y pryd.

4. Gosod a pharchu ffiniau teuluol.

Gwnewch yn siŵr fod gan bob aelod o'r teulu hawl i breifatrwydd wrth ymwisgo, ymolchi, cysgu a gwneud pethau personol eraill. Dylid gwrando hyd yn oed ar blant ifainc, a pharchu eu dymuniadau.

5. Bod yn rhesymol ofalus ynglŷn â'r rhai y byddwn yn eu dewis i warchod ein plant.

Byddwch yn ofalus ynglŷn â r bobl y gadewir plant gyda nhw. Darganfyddwch gymaint ag y gallwch am bobl sy'n gwarchod babanod a pheidiwch â gadael eich plentyn gydag unrhyw un yr ydych yn amheus ohono/i. Os bydd plentyn yn anhapus ynglŷn â threulio amser gyda rhywun penodol, siaradwch â'r plentyn am y rhesymau am hynny.

## Beth allwn ni ei wneud os ydym yn amau bod rhywun yr ydym yn ei adnabod yn cam-drin plentyn yn rhywiol, neu yn ystyried gwneud hynny?

Peth annymunol dros ben yw amau fod rhywun yr ydym yn ei adnabod yn cam-drin plentyn yn rhywiol, yn enwedig os yw hwnnw neu honno'n ffrind neu'n aelod o'r teulu. Mae'n haws o lawer bwrw meddyliau o'r fath ymaith a'u hesgusodi fel dychymyg. Ond y mae'n well trafod y sefyllfa na darganfod yn nes ymlaen fod sail i'n pryderon. A chofiwch, nid ydym ar ein pen ein hunain. Bob blwyddyn, bydd miloedd o bobl yn darganfod fod rhywun yn eu teuluoedd neu eu cylch o ffrindiau wedi cam-drin plentyn. Mae angen help proffesiynol ar blant a gamdrinir, ac ar eu teuluoedd, i ddod dros y profiad.

Gall gweithredu arwain at atal camdriniaeth, a chynorthwyo plant sy'n cael eu cam-drin i gael eu diogelu neu i ddod dros y profiad. Gall arwain hefyd at help effeithiol neu driniaeth i'r camdriniwr, i'w atal rhag cam-drin ac i ddod yn aelod diogelach o'n cymuned. Os bydd y camddefnyddiwr yn rhywun sy'n agos atom, fe fydd angen cefnogaeth arnom ninnau hefyd.

Os, o ddarllen y daflen hon, y byddwch yn poeni naill ai amdanoch eich hunain, neu ynteu am rywun yr ydych yn ei adnabod, cysylltwch â Stop it Now! Trowch drosodd am fanylion.



**Llinell Gymorth Rhadffôn 0808 1000 900**

# Sut y gallwch weithredu:

## Cysylltwch â Llinell Gymorth Stop it Now! Rhadffôn 0808 1000 900

Os ydych yn ansicr, neu'n poeni ynglŷn â'ch meddyliau am blant, neu ynglŷn â'ch ymddygiad tuag atynt, neu ynglŷn ag ymddygiad rhywun yr ydych yn ei adnabod, boed blentyn neu oedolyn, bydd ein cynghorwyr profiadol yn trafod eich pryderon gyda chi a gallant gynnig cyngor cyfrinachol ar sut y gallech weithredu.

## Cysylltwch â'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol

Mae gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol drefniadau ar y cyd i ymateb i ddrwgdybiaeth o gamddefnyddio plant yn rhywiol. Bydd rhywun yn siarad â chi am eich pryderon ac mae'n bosibl y byddant yn gofyn am fanylion fel y bydd modd archwilio.r sefyllfa ymhellach. Mae timau'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn brofiadol iawn yn y gwaith hwn, a byddant yn ymdrin â'r plant ac â'r teulu. Cofiwch, mae camddefnyddio plant yn rhywiol yn drosedd, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid mynd â'r camddefnyddiwr gerbron llys cyn y bydd y camddefnyddio'n dod i ben, a'r plentyn yn cael yr help y mae ei angen arno.

***Ein plant yw ein dyfodol, ac y mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i'w diogelu. Gweithredwch. Galwch Linell Gymorth Stop it Now! am ragor o gyngor.***